

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

England & Wales · Charity number 1159046

Details

Status Registered

Legal form CIO

Registered 2014-11-03

Register [View on the Charity Commission register](#)

Contact

Address Canolfan Noddfa
Cil Peblig
Caernarfon
LL55 2RS

Phone 01286238200

Email carys@codirto.com

Website www.codirto.com

Activities

Objects: (1) HYRWYDDO BYWYD A CHYNORTHWYO POBL IFANC DRWY (A) DDARPARU GWEITHGAREDDAU CELFYDDYDOL A HAMDDEN ER LLES CYMDEITHASOL, WEDI EU CYNLLUNIO I WELLA EU HAMODAU BYW; (B) DARPARU CEFNOGAETH A GWEITHGAREDDAU SY'N DATBLYGU EU SGILIAU A'U MEDRAU I'W GALLUOGI I GYFRANOGI MEWN CYMDEITHAS FEL UNIGOLION AEDDFED A CHYFRIFOL (2) HYBU CYMHWYSEDD CYMDEITHASOL ER LLES Y CYHOEDD DRWY ATAL POBOL RHAG CAEL EU HEITHRIO?N GYMDEITHASOL, GAN LINIARU ANGHENION Y RHAI HYNNY SY'N CAEL EU HEITHRIO'N GYMDEITHASOL A'U CYNORTHWYO I INTEGREIDDIO I GYMDEITHAS. I DDIBEN Y CYMAL HWN YSTYR 'WEDI EI EITHRIO'N GYMDEITHASOL' YW CAEL EI H/EITHRIO O GYMDEITHAS, NEU O RAN O GYMDEITHAS, O GANLYNIAD I FOD YN AELOD O GYMUNED SY'N DDIFREINTIEDIG YN GYMDEITHASOL AC ECONOMAIDD (1) TO PROMOTE QUALITY OF LIFE AND HELP YOUNG PEOPLE BY:(A) PROVIDING ARTS AND LEISURE-TIME ACTIVITIES FOR THEIR SOCIAL WELL-BEING, PLANNED TO IMPROVE THEIR LIVING CONDITIONS;(B) PROVIDING SUPPORT AND ACTIVITIES WHICH DEVELOP THEIR SKILLS TO ENABLE THEM TO PARTICIPATE IN SOCIETY AS MATURE AND RESPONSIBLE INDIVIDUALS.(2) PROMOTE SOCIAL INCLUSION FOR THE PUBLIC BENEFIT BY PREVENTING PEOPLE FROM BECOMING SOCIALLY EXCLUDED, MITIGATING AND MEETING THE NEEDS OF THOSE WHO ARE SOCIALLY EXCLUDED AND HELP THEM TO INTEGRATE INTO SOCIETY. FOR THE PURPOSE OF THIS CLAUSE 'SOCIALLY EXCLUDED' MEANS BEING EXCLUDED FROM SOCIETY,OR FROM PART OF SOCIETY, AS A RESULT OF BEING A MEMBER OF A COMMUNITY WHICH IS SOCIALLY AND ECONOMICALLY DISADVANTAGED.

Activities: Prosiect adfywio cymunedol yng Nghymru yw Sistema Cymru - Codi'r To. Gan fabwysiadu dull nodedig El Sistema, mae'r cynllun yn defnyddio cerddoriaeth i herio difreintedd a thangyflawni addysgol gan anelu at wella bywydau unigolion a chymunedau. Wedi cychwyn mewn dwy ardal yng Ngwynedd, ein bwriad hir-dymor yw ymestyn ein gweithgaredd i gynnwys cymunedau eraill difreintiedig ar draws Cymru.

Classification

- **How:** Provides Services
- **What:** Education/training, Arts/culture/heritage/science
- **Who:** Children/young People, The General Public/mankind

Geography

- Gwynedd

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-08-31	£241,287	£193,917	-	-
2024-08-31	£227,523	£230,084	-	-
2023-08-31	£195,524	£193,228	-	-
2022-08-31	£148,791	£194,816	-	-
2021-08-31	£179,556	£178,477	-	-

Trustees

Name	Role	Appointed
Alun Ffred Jones	Chair	2017-04-27
ANN HOPCYN		2017-04-27
CARYS AARON		2017-04-27
Dr Gwawr Ifan		2017-04-27
JUDITH HUMPHREYS		2017-04-27
NIA WYN LLOYD		2017-04-27
Owen Owens		2017-04-27
RHYS HARRIS		2017-04-27
SIONED ELISABETH HUWS		2017-04-27

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

England & Wales - Charity number 1159046

Accounts

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

(Sefydliad Corfforedig Elusennol)

Adroddiad Anarchwiliatedig a Datganiadau Ariannol

Am y flwyddyn hyd at 31ain Awst 2025

Rhif Elusennol: 1159046

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Cynnwys	Tudalen
Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol	2
Adroddiad y Cadeirydd	3
Adroddiad yr ymddiriedolwyr	4 - 8
Adroddiad Arholwr Annibynnol	9
Datganiad o Weithredoedd Ariannol	10
Mantolen	11
Nodiadau ar y cyfrifon	12 - 19

**SISTEMA CYMRU - CODI'R TO
GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL**

YMDDIRIEDOLWYR

Carys Aaron
Alun Ffred Jones
Sioned Elisabeth Huws
Nia Wyn Lloyd
Owen Owens
Gwawr Ifan
Judith Humphreys
Rhys Harris
Ann Pari Williams – Ymdd. 11/10/2024
Ann Hopcyn

SWYDDFA COFRESTRDIG

Canolfan Noddfa
Cil Peblig
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 2RS

MANYLION BANC

HSBC Bank PLC
24 Y Sgwar
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2NB

CYFRIFWYR

W J Matthews a'i Fab
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Adroddiad y Cadeirydd

Dechreuodd y flwyddyn yn llawn gobaith wrth i Gyfarwyddwr Cerdd newydd ddechrau ar ei waith. Cafwyd ymateb cadarnhaol o'r ysgolion i waith y Tiwtoriaid er bod salwch ymhlith y staff a salwch teuluol wedi creu anhawsterau lu. Gyda thristwch y bu raid i ni ffarwelio gyda Lucy a wnaeth gyfraniad enfawr i Codi'r To yn ystod ei chyfnod gyda ni.

Ddechrau mis Ionawr 2025 cynhaliwyd sesiwn ar y cyd rhwng aelodau'r Bwrdd a'r staff dan faner Dychmygu'r Dyfodol ble cafwyd cytundeb y dylai Codi'r To addasu ei batrwm gwaith i gynnal mwy o weithgareddau yn y gymuned tra'n cadw presenoldeb yn yr ysgolion yn y gobaith y byddai hynny'n denu rhagor o nawdd ac yn cyrraedd ein hamcanion i wneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc Maesgeirchen a Pheblig yn benodol.

Gwaetha'r modd, yn dilyn absenoldeb y Cyfarwyddwr Cerdd oherwydd salwch o ddechrau mis Mai bu'n amhosib gweithredu ar y weledigaeth newydd wrth i weddill y staff addasu eu gwaith i gynnal gwasanaeth i'r ysgolion gyda llai o adnoddau. Bu hwn yn gyfnod heriol iawn a hoffai'r Ymddiriedolwyr ddiolch i'r staff am eu parodrwydd i fynd y 'filltir arall' yn ystod y cyfnod hwn. Cymerodd Iolo at y rol arweiniol i lenwi'r bwlch ac rydym am gydnabod hynny. Hoffwn gofnodi waith manwl Nia a Carys o blith aelodau'r Bwrdd yn ystod y trafod a fu gyda chynrychiolydd Undeb y Cyfarwyddwr Cerdd yn ystod yr un cyfnod.

Croesawyd Emyr yn aelod o'r tim tiwtora a daeth a chyfoeth o brofiad ac arbenigedd i gryfhau'r gwaith yn yr ysgolion.

Hoffwn ddiolch i'r staff i gyd am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd yn ystod y flwyddyn ac i aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniadau amrywiol i'r gwaith o gynnal a chadw delfryd Codi'r To.

Llwyddwyd i gynnal perthynas dda gyda'r ysgolion er gwaetha'r heriau a diolchwn i'r Penaethiaid am eu cefnogaeth cyson. Cydnabyddwn hefyd gefnogaeth Cyngor Gwynedd a Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Mon i'n gweithgareddau ac i'n arianwyr eraill.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i Gwmni W.J. Matthews a'i Fab am eu cyngor ac arweiniad yn ystod y flwyddyn.

Yn gywir,

Alun Ffred Jones
Cadeirydd El Sistema Cymru - Codi'r To.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn hyd at 31ain Awst 2025

Cyflwynna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol anarchwiliedig ar ran y sefydliad am y flwyddyn hyd at 31ain Awst 2025. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad Arfer Argymelledig (SORP) "Cyfrifyddiaeth ac Adrodd gan Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005 wrth baratoi adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen.

Cofrestrwyd yr elusen fel Sefydliad Corfforedig Elusennol ar y 3ydd Tachwedd 2014, gyda'r Rhif Elusennol: 1159046.

Mae Sistema Cymru - Codi'r To yn brosiect adfywio cymunedol sydd yn dod a'r ddull El Sistema fyd enwog i ogledd Cymru. Mae'r cynllun yn gweithio mewn dwy ysgol gynradd, Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon ac Ysgol Glancegin ym Mangor. Mae tiwtoriaid cerdd proffesiynol yn gweithio yn yr ysgolion yn arwain gweithgareddau cerddorol a rhoi cyfle i bob disgybl o Flynyddoedd Meithrin i Flwyddyn 6 yn Ysgol Glancegin ac Ysgol Maesincla i dderbyn gwersi cerdd a dysgu offeryn pres a tharo. Maent yn gwneud cysylltiadau â theuluoedd a'r gymdogaeth o gwmpas yr ysgolion gan ddarparu cerddoriaeth fyw yn y gymuned a chlwb cerdd ar ôl ysgol i blant o Flwyddyn 3 i oed Uwchradd.

Nod Sistema Cymru - Codi'r To yw trawsnewid bywydau drwy gerddoriaeth. Mae'n brosiect datblygiad cymunedol sy'n anelu at wella bywydau unigolion a chymunedau, a hynny drwy weithio gydag ysgolion cynradd i ddarparu profiadau cerddorol a thiwtora offerynnol. Datblygwyd y prosiect gan Grŵp Llywio oedd yn cynrychioli y celfyddydau, y gymuned ac addysg a oedd yn awyddus i edrych ar fethodoleg El Sistema a'i drawsblannu i gyd destun Cymreig.

Daw'r ysbrydoliaeth o'r cynllun El Sistema yn Venezuela ac o brosiectau tebyg megis In Harmony yn Lloegr a phrosiect Big Noise yn yr Alban. Darperir y prosiect drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, un o lond llaw o brosiectau Sistema sydd yn cael eu cynnal drwy iaith leiafrifol.

Mae Sistema Cymru - Codi'r To wedi cael ei werthuso gan Brifysgol Bangor. Mae hyn yn fodd o fesur effaith a llwyddiannau'r cynllun ar y cyfranogwyr yn yr ysgolion a'r gymuned.

Polisi Buddsoddi

Yn unol â chyfansoddiad y Sefydliad Corfforedig Elusennol, mae gan yr ymddiriedolwyr y pŵer i wneud unrhyw fuddsoddiad sydd yn eu barn hwy o fudd da i'r sefydliad.

Penodi Ymddiriedolwyr

Yng Nghyfarfod Blynyddol 22ain o Mai 2025, ail etholwyd Alun Ffred Jones, Sioned Huws, Gwawr Ifan ac Owen Owens fel ymddiriedolwyr am gyfnod o 2 flynedd.

Gellir ethol ymddiriedolwyr ychwanegol am gyfnod o 3 mlynedd mewn unrhyw Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd pob Ymddiriedolwr ble mae eu cyfnod penodiad yn dod i ben yn gymwys i gael eu hailethol.

Amcanion y sefydliad elusennol corfforedig er budd y cyhoedd

Prif amcanion yr elusen yw hyrwyddo bywyd a chynorthwyo pobl ifanc drwy:

- Ddarparu gweithgareddau celfyddydol a hamdden er lles cymdeithasol, wedi eu cynllunio i wella eu hamodau byw;
- Darparu cefnogaeth a gweithgareddau sy'n datblygu eu sgiliau a'u medrau i'w galluogi i gyfranogi mewn cymdeithas fel unigolyn aeddfed a chyfrifol.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn hyd at 31 Awst 2025, ymlaen.....

Mae'r elusen hefyd yn hybu cynhwysedd cymdeithasol er lles y cyhoedd drwy atal pobol rhag cael eu heithrio'n gymdeithasol, gan liniaru anghenion y rhai hynny sy'n cael eu heithro'n gymdeithasol a'u cynorthwyo i integreiddio i gymdeithas. I ddiben y cymal hwn, ystyr 'wedi ei eithrio'n gymdeithasol' yw cael ei heithrio o gymdeithas, neu o ran y gymdeithas, o ganlyniad i fod yn aelod o gymuned sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Perthynas gyda phartïon eraill â diddordeb

Cefnogir yr elusen gan Gyngor Sir Gwynedd, Arian i Bawb Loteri Cenedlaethol Cymru, Steve Morgan Foundation, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – Pawb a'i Le, People's Postcode Lottery, Colwinston Charitable Trust, The Darkley Trust, The Douglas Pennant Family Trust, Millennium Stadium Charitable Trust, Atsain (Anthem), Comic Relief, Ysgol Maesincla, ac Ysgol Glancegin. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaol pawb sydd â diddordeb.

Polisi ar Gronfeydd

Mae'r elusen yn ddibynnol iawn ar gefnogaeth barhaus y partïon sydd â diddordeb. Prif amcan yr elusen yw i sicrhau bod incwm blynyddol o leiaf yn gyfartal a'r costau gyda'r bwriad o sefydlu cronfa gyffredinol wrth gefn fydd ar gael i ariannu gweithgareddau'r elusen. Mae polisi cronfeydd yn datgan y bwriad i gadw oleiaf 3 mis o gostau rhedeg yr elusen a chostau di-swyddo staff mewn cronfa wrth gefn.

Adolygiad o Weithgareddau Ariannol

Yn ystod y flwyddyn i 31 Awst 2025, parhaodd incwm yr elusen ar lefel debyg i'r flwyddyn flaenorol, gyda chyfanswm adnoddau o £241,287 o gymharu â £227,523 yn 2024. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y gwariant i £193,917 (2024 – £230,084), gan arwain at incwm net o £47,370 ar gyfer y flwyddyn (2024 – gwariant net o £2,561). O ganlyniad, cynyddodd balans y cronfeydd i £82,477 ar ddiwedd y flwyddyn (2024 – £35,107). Roedd y gronfa anghyfyngedig ar £55,977 (2024 – £23,178), gan gryfhau sefyllfa ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn i ddod. Daeth y gwelliant hwn yn sgil rheoli costau mwy effeithlon a gostyngiad mewn gwariant uniongyrchol, gan adlewyrchu dull cadarn o gynllunio a rheoli adnoddau.

Er hyn, mae sefyllfa ariannol yr elusen yn parhau'n fregus, gan fod gweithgareddau craidd Codi'r To yn dibynnu'n sylweddol ar sicrhau prosiectau a grantiau newydd yn flynyddol; felly mae cynnal a chryfhau'r ffrydiau cyllido hyn yn hanfodol i gynaliadwyedd y dyfodol.

Mae tiwtoriaid cerdd Sistema Cymru - Codi'r To yn gweithio mewn dwy ysgol, Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon ac Ysgol Glancegin ym Mangor. Mae tiwtoriaid cerdd proffesiynol yn gweithio yn yr ysgolion yn arwain gweithgareddau cerddorol a rhoi cyfle i bob disgybl o Flynyddoedd Meithrin i Flwyddyn 6 yn Ysgol Glancegin ac Ysgol Maesincla i dderbyn gwersi cerdd a dysgu offeryn pres a tharo. Maent yn gwneud cysylltiadau â theuluoedd a'r gymdogaeth o gwmpas yr ysgolion gan ddarparu cerddoriaeth fyw yn y gymuned a chlwb cerdd ar ôl ysgol i blant o Flwyddyn 3 i oed Uwchradd.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd y gweithgareddau a'r digwyddiadau canlynol:

Ysgolion

Cynhelir y prosiect mewn dwy Ysgol gynradd yn Arfon sef Ysgol Maesincla, Caernarfon ac Ysgol Glancegin Maesgeirchen, Bangor.

Roedd y flwyddyn academaidd 2024-25 yn un heriol wrth gwrs, ond fe ddaru ni wneud llwyddiant ohoni yn y diwedd. Mae'r perthnasau efo'r ysgolion wedi aros yn dda, ac mae eu ymrwymiad i Codi'r To am y dyfodol yn gryf iawn. Rydym yn falch iawn o'r tîm cyfan, ac yn ddiolchgar i bawb or tîm a'r bwrdd, ein bod wedi sicrhau y perthnasau yma drwy ein gwaith caled i gyflawni yr hyn yr oeddem wedi cytuno i ym mis Medi.

Fe aeth y darpariaeth ysgolion drwy nifer o newidiadau ac arbrofion dros y flwyddyn o ran y cynnwys a'r ffordd mae'n cael ei ddarparu, mi oedd angen mynd yn ôl i'r pethau sylfaenol efo pawb i sicrhau dealltwriaeth o ddarllen cerddoriaeth a sut i chwarae'r offerynnau. Ddarun hyn ddangos faint mor bell o'n

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn hyd at 31 Awst 2025, ymlaen.....

targedau oedden ni, ond rydym yn hyderus fod y siâp diweddera ohono yn un all fod yn llwyddiannus yn y hir dymor efo mwy o ddatblygu.

Fe ddaru ni arbrofi efo gwneud nifer o berfformiadau yn yr ysgolion dros y flwyddyn fel "dangosiadau" o'r hyn roeddem wedi bod yn gweithio ar. Roeddent yn gyfle i gael y rhieni i mewn i weld beth mae Codi'r To yn ei wneud efo'r plant, ac i'r plant cael y profiad o berfformio i gynulleidfa. Mi oeddent yn llwyddiant, roedd y nifer ddaru fynychu'r perfformiadau yn dda iawn, a fe gafodd y plant brofiadau positif o berfformiadau cyhoeddus. Rydym yn gobeithio y gallwn neud fwy yn y dyfodol i barhau i wneud y cysylltiadau efo'r rhieni, ac i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith sydd yn digwydd yn yr ysgolion.

O ran y tîm tiwtoriaid mi oedd pethau yn gymysg. Mi oedd pawb yn ymroddedig i'r achos, a pawb yn "tynnu eu pwysau" i alluogi ni barhau i roi'r cyfleoedd a darpariaeth i'r plant. Ond mae'n biti mawr fod Lucy wedi ymddiswyddo yng nghanol y flwyddyn. Rydym wedi colli ei sgiliau, profiad, ac arbenigedd o'r tîm, ac mi fydd yn anodd iawn i lenwi'r bwlch yma o fewn arbenigedd y tîm eto. Rydym hefyd wedi methu cadw Tesni, mi oedd hi'n dod a egni gwych i'r sesiynau ac wedi bod yn adeiladu cydberthnasau efo nifer o blant, oedd yn eu helpu i ymrwymo efo'r sesiynau. I gyferbynnu hyn, mae'r ychwanegiad o Emyr i'r tîm wedi bod yn wych, mae ei frwdfrydedd, sgiliau, a syniadau wedi bod yn hanfodol i ni dros y misoedd ers iddo ymuno, ac rydym yn gobeithio y bydd o efo ni am amser hir.

Cynllun Cerdd

Cynllun Cerdd Codi'r To yw'r prosiect sy'n anelu i ddarparu profiad o gerddoriaeth fyw i ddisgyblion blwyddyn 5 ym mhob ysgol gynradd ar draws Gwynedd. Gan ddilyn ein hegwyddorion addysgol cadarn ac ymgysylltiad ddeallus â'r gymuned, mae'r prosiect hwn wedi llwyddo i gyfuno addysg gerddorol o safon uchel iawn ynghyd â chychwyn taith pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

Amcanion y Prosiect Nod ein Cynllun Cerdd yw rhoi cyfleoedd i blant brofi cerddoriaeth fyw trwy gyfrwng Samba, gan ddatblygu eu sgiliau cerddorol a'u dealltwriaeth o gerddoriaeth fel rhan o'u datblygiad personol a diwylliannol. Yn ogystal, roedd y prosiect yn anelu i hwyluso'r broses o bontio disgyblion o'r ysgolion cynradd i'r uwchradd, gan ddefnyddio ysgolion uwchradd fel canolfannau/hybiau i gynnal y gweithdai Samba.

Cynhaliwyd ein sesiynau Samba gan ddarparwyr gyda sgiliau arbennigol ac unigryw yn ein hardal. Roedd y sesiynau hyn yn cael ei darparu gan yr unig brosiect El Sistema yng Nghymru, gan roi cyfle unigryw i'r disgyblion weithio gyda thiwtoriaid newydd a chyffrous trwy ddull effeithiol El Sistema.

Mae'r adborth a dderbyniwyd yn dangos bod y sesiynau wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda disgyblion yn mwynhau'r profiad ac yn frwdfrydig am ddrebyn mwy o sesiynau o'r math.

Sesiwn Dychmygu yr dyfodol Codi'r To

Dyma syniad cafwyd er mwyn dod a Aelodau Bwrdd Codi'r To ac aelodau o'r Staff at ei gilydd i drafod a dychmygu dyfodol Codi'r To ynghyd a chyfle i pawb ddod i nabod ei gilydd yn well. Cafodd y sesiwn ei hwyluso gan Gwawr gyda'r nod o lunio datganiadau gweledigaeth a chenhadaeth i Codi'r To. Roedd yn sesiwn hynod ddiddorol, egniol ac wir yn rhyddhad i mi weld fod pawb yn canu o'r run llyfr!

Ymgysylltu cymunedol

Clwb Codi'r To - Clybiau rol Ysgol

Mae'r clybiau ar ôl ysgol wedi bod yn datblygu yn arbennig o dda. Mae Emyr wedi bod yn allweddol i ddatblygu y clybiau. Yn y gorffennol mae plant wedi cael trafferth mawr yn darllen cerddoriaeth ac wedi blino o chwarae'r run un caneuon efo backing tracks heb lwybr nac adnoddau i helpu nhw i wella.

Mae Emyr wedi datblygu system i'r trefniannau i allu creu llwybr i helpu'r plant i wella. Mae defnydd o'r system yma yn rhoi cyfle i ni weithio efo plant o allu gwahanol o fewn yr un grŵp ond mae o hefyd yn rhoi cyfle i'r plant gael dysgu sut i chwarae efo'i gilydd fel band cyfan. Hyd at hyn, mae'r plant sy'n dod i clwb fel mater o drefn yn gallu darllen cerddoriaeth sylfaenol o fewn cyd-destun band efo hyder.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn hyd at 31 Awst 2025, ymlaen.....

Prosiect Radio Bro Maesgeirchen

Prosiect radio bro Maesgeirchen. Mae Codi'r To, Maes Ni, Menter Iaith Bangor, Letters Grow a BBC Radio Cymru yn rhanddeiliaid yn y prosiect. Bellach mae'r cyfnod cynllunio a threfnu wedi ei roi yn ei le:

- Ymweliad BBC Bangor – hanner tymor Chwefror
- Hyfforddiant technegol yn BBC Bangor – diwedd Chwefror/dechrau Mawrth
- Hyfforddiant creu rhaglenni ym Maes Ni – gwyliau Pasg
- Hyfforddiant cyflwyno, golygu a recordio – bythefnos cyntaf gwyliau Haf
- Darlledu rhaglen Radio Bro Maesgeirchen (enw i'w gadarnhau) – ym mis Hydref 2026

Gwyl Fwyd Caernarfon a Gwyl Haf Bangor

Cyfle gwych i Codi'r To gael dangosiad cymunedol mewn gwyl poblogaidd yng Nghymru i arddangos Gwaith ac ymarfer plant cymunedau Glancegin ac Maesincla dan un to (marci) yn ol son am y tro cyntaf! Bu criw offeryna pres a taro a plant bach yn canu, gyda chynilleidfa dda yn gwyllo! Roedd hefyd yn gyfle i gael ymestyn allan i'r gymuned a chael sgwrs i hyrwyddo'r prosiect a'n stondin Codi'r To gyda baneri, pamffledi a sticeri. Roedd hefyd yn rili neis cael Judith a Sioned yn ymuno a ni ar rhan y Bwrdd.

Codi Arian - Elusen Codi'r To

Big Give

Ymgyrch Big Give - Arts for Impact 18-25 Mawrth

Dyma'r laf o'n strategaeth i geisio hyrwyddo Codi'r To fel Elusen ac hyrwyddo yr holl brosiect a'r draws Cymru a'r Byd. Mae'n gyfle gwych i neud hun gyda'r ymgyrch gan fod Big Give yn rhoi £1 i pob £1 a gasglwyd.

Dylunwyd Brand arbgennig i'r ymgyrch gyda ffocws ELUSEN a bu'n allweddol i'w lwyddiant gyda'r Staff yn gwisgo 'unifroms' newydd i bob fidio cyfryngau cymdeithasol ac yn rhannu sticeri a pamffledi gyda pob plentyn yn y ddwy ysgol yn esbonio ei'n bod yn Elusen.

Fel rhan o'r ymgyrch bu'r artist Mared Williams ymuno a Lowri a Tesni yn Ysgol Glancegin a rhedeg gweithdy i greu cân newydd i Codi'r To. Roedd y syniad yma wedi sbardyno gan Lowri a Tesni ac iddynt nhw mae'r canmol am hun oll.

Roedd yr Ymgyrch yn lwyddinat ysgubol, nid yn unig gan ei'n bod wedi tario targed ariannol ond roedd yr ymwybyddaieth a godwyd fod Codi'r To yn Elusen wedi cynyddu ymestyn ei'n cyngryngau cymdeithasol ond hefyd bod fwy o blant yn mynychu Clybiau ol ysgol a llawer mwy wedi ymuno a dangosiadau yn yr ysgolion oherwydd y 'buzz' o amgylch Codi'r To.

Grantiau

Yn y cyfnod hon rydym yn gweld patrwm o geisiadau grantiau yn Cael ei wrthod. Patrwm roedd wedi ei argyhoeddi gan Newtron Consultants dros y blynyddoedd a'r galw am newid i sut mae'r Cwmni yn gweithredu.

Taith Path Way 2

Y syniad ydi ei'n bod yn ymweld a Sistema Örnköldsvik Sweden, lle bydd cyfle i ni ymweld a dysgu syt mae nhw wedi goresgyn y problem yma, ac mewn gyfnewid byddwn yn darparu sesiynau ei'n arbeniwr offeryna taro Codi'r To mewn ffurf gweithdai iddynt.

Mae Iolo yn cael ei whaodd bob blwyddyn i Cyngherdd Sdie by side i arwain oherwydd ei arbenigedd ac felly mae'r cyfnewid yn werth aur ei ei bwysa.

Yn olaf hoffwn ddiolch yn arbennig i staff Ysgol Maesincla ac Ysgol Glancegin am eu cefnogaeth ac i holl arianwyr Codi'r To gan na fyddai dim o hyn wedi digwydd hebddynt hwy.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn hyd at 31 Awst 2025, ymlaen.....

Adolygu Prif Risgiau

Y risg o bwys ar hyn o bryd yw diogelu cefnogaeth gyfredol gan bartïon sydd wedi datgan diddordeb yn yr elusen. Hyd yma, mae'r elusen wedi sicrhau digon o arian i'w gynnal am y dyfodol rhagweladwy; fodd bynnag, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau parhad yn y cymorth gan bartïon sydd wedi datgan diddordeb, yn ogystal â cheisio darganfod ffynonellau cyllid newydd.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr mewn perthynas â'r datganiadau ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr ac hefyd y datganiadau ariannol blynyddol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice).


Mae'r gyfraith berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn gofyn i ymddiriedolwyr yr elusen i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion yr elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau ar gyfer pob blwyddyn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr :

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion perthnasol SORP Elusennau;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- nodi os yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau fel busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau perthnasol (Cyfrifo ac Ymadrodd), a darpariaethau Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a chymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb yr elusen a'r wybodaeth ariannol a gynhwysir ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill

Ar ran y Bwrdd:



Alun Ffred Jones (Cadeirydd)

3ydd Chwefror 2026

ADRODDIAD ARHOLWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Rhof adroddiad ar gyfrifon Sistema Cymru – Codi'r To am y flwyddyn hyd at 31 Awst 2025, a ymddengys ar dudalennau 2 i 16.

Cyfrifoldebau sydd yn briodol i'r Ymddiriedolwyr a'r Arholwr

Chwi, fel Ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am gwblhau'r cyfrifon. Rydych yn ystyried nad yw'r gofynion archwiliad o Adran 144(2) o'r Ddeddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) angen eu defnyddio a bod angen arholiad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw

- arholi'r cyfrifon dan adran 145 o'r Ddeddf 2011
- dilyn y trefniadau a nodir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roir gan Gomisiynwyr yr Elusennau dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf 2011; a
- datgan os oes unrhyw fater arbennig wedi dod i'm sylw


Sail adroddiad yr Arholwr Annibynnol

Gwnaed yr arholiad gennyf yn ôl y Canllawiau Cyffredinol a roddwyd gan Gomisiynwyr yr Elusennau. Mae arolwg yn cynnwys adolygu cofnodion y cyfrifon a gedwir gan yr Elusen a chymharu'r cyfrifon sydd yn cael eu cyflwyno gyda'r cofnodion hynny. Mae'n cynnwys hefyd ystyriaeth o unrhyw eitem anghyffredin neu ddadleniadau yn y cyfrifon, a cheisiwyd cael eglurhad gennych chi fel Ymddiriedolwyr ynglŷn ag unrhyw faterion o'r fath. Ni fydd y camau a gymerir gennym yn rhoi'r oll o'r dystiolaeth a fuasai ei angen mewn archwiliad, ac felly nid ydym yn datgan barn fod y cyfrifon yn rhoi 'golwg gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a amlinellir yn y datganiad isod.

Datganiad yr Arholwr Annibynnol

Yn gysylltiedig â'r arholiad a wnaed gennyf, ni ddaeth dim i fy sylw:

1. sydd yn rhoi i mi achos rhesymol i gredu nad yw, mewn unrhyw fodd o bwys yr anghenion wedi eu cadw ynglŷn â:
 - cadw cofnodion cyfrifyddol yn unol ag Adran 130 o'r Ddeddf 2011; a
 - pharatoi cyfrifon sydd yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddol a sydd yn ufuddhau i ofynion cyfrifyddol y Ddeddf 2011 heb gael eu cydymffurfio; neu
2. sydd, yn fy marn, angen cyfeirio ato er mwyn galluogi dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.


David Chidley,
W J Matthews a'i Fab,
Cyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
Caernarfon,
LL55 1AB.

3ydd Chwefror 2026

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Datganiad o Weithredoedd Ariannol am y flwyddyn hyd at 31 Awst 2025


	Nodyn	Cronfeydd Anghyf. £	Cronfeydd Cyfyng. £	31 Awst 2025 £	31 Awst 2024 £
Incwm					
Gweithgareddau elusennol	3	30,000	-	30,000	32,417
Incwm gwirfoddol	4	35,547	165,412	200,959	184,144
Incwm arall:					
Codi arian a rhoddion		4,355	-	4,355	5,821
Lwfans Cyflogaeth		5,973	-	5,973	5,141
Cyfanswm		<u>75,875</u>	<u>165,412</u>	<u>241,287</u>	<u>227,523</u>
Gwariant ar:					
Gweithgareddau elusennol	5	43,076	150,841	193,917	230,084
(Gwariant) / Incwm net am y flwyddyn		<u>32,799</u>	<u>14,571</u>	<u>47,370</u>	<u>(2,561)</u>
Balans ar 1af Medi 2024		23,178	11,929	35,107	37,668
Balans ar 31 Awst 2025		<u>£55,977</u>	<u>£26,500</u>	<u>£82,477</u>	<u>£35,107</u>

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio o weithgareddau sy'n parhau. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO


Mantolen ar 31 Awst 2025

	Nodyn		2025 £	2024 £
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	9	6,478	12,500	
Arian yn y banc ac mewn llaw		91,379	26,171	
		-----	-----	
		97,857	38,671	
Credydwyr: symiau yn ddyledus				
<i>o fewn blwyddyn</i>	10	(15,380)	(3,564)	
		-----	-----	
Asedau cyfredol net			82,477	35,107
			-----	-----
Asedau net			£82,477	£35,107
			=====	=====
 Cronfeydd				
Cronfa Anghyfyngedig	14		55,977	23,178
Cronfa Cyfyngedig	14		26,500	11,929
			-----	-----
			£82,477	£35,107
			=====	=====



 Alun Ffred Jones (Ymddiriedolwr)

3ydd Chwefror 2026



 Rhys Harris (Ymddiriedolwr)

3ydd Chwefror 2026

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Awst 2025*

1. Polisiâu cyfrifyddol

a) Confensiwn cyfrifo

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi eu paratoi i gydymffurfio gyda Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (effeithiol 1 Ionawr 2015) – (SORP Elusennau (FRS102)) a'r Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Elusennau 2011.

Mae Sistema Cymru - Codi'r To yn cyfarfod â'r diffiniad endid "Budd i'r cyhoedd" dan FRS102. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod yn gyntaf dan gost hanesyddol neu gwerth trafodion oni bai eu bod wedi cael eu datgan yn wahanol yn y polisiâu cyfrifo perthnasol.

b) Cwblhau cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw amheuaeth na ellir cwblhau'r cyfrifon dan sail busnes gweithredol.

c) Statws Elusennol

Wedi dirwyn i ben neu ddi-ddymu Sistema Cymru – Codi'r To, os bydd unrhyw eiddo o gwbl yn weddill ar ôl talu ei holl ddyledion ac ymrwymadau, ni chaniateir dosbarthu hwnnw ymhlith yr aelodau, ond fe'i rhoddir neu fe'i trosglwyddir i ryw sefydliad arall a bennir gan yr Ymddiriedolwyr ar yr adeg y daw yr elusen i ben, sydd ag amcanion tebyg i rai'r elusen.

ch) Cyfrifo Cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall. Cronfeydd penodedig yw cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu clustnodi tuag at gostau penodol

Cronfeydd penodedig yw cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi cael eu gosod o'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at ddibenion penodol.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr neu sydd wedi cael eu codi gan yr elusen at ddiben arbennig. Mae'r gost o godi a gweinyddu cronfeydd o'r fath yn cael eu codi yn erbyn y gronfa benodol honno.

d) Adnoddau Cyllid

Dangosir adnoddau cyllid yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm a gellir mesur y swm yn resymol fanwl. Cyfrifir am grantiau yn y cyfnod maent yn perthyn.

Mae adnoddau a dderbynnir gan roddwr sydd wedi gosod amodau ar ddefnydd o'r incwm ac yn nodi'r cyfnod amser gall yr incwm gael ei ddefnyddio i'w drin fel incwm gohiriedig i'w ryddhau i'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd y gosodiadau amod wedi eu bodloni.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Awst 2025 ymlaen*

dd) Adnoddau a ddefnyddiwyd

Cyfrifir yr holl wariant ar sail croniant ac maent wedi eu dosbarthu dan benawdau sydd yn cyfuno'r holl gostau sydd yn berthynol i'r pennawd. Cost cynhyrchu cronfa yw'r costau sy'n ymwneud â phrynu offer cyfrifiadurol a hefyd costau tendro am waith arolygu. Cost gweithgareddau elusennol yw'r costau sy'n ymwneud â gwariant ar amcanion yr elusen boed yn gost uniongyrchol neu cost cynorthwyol. Costau llywodraethu yw'r costau a godwyd mewn cysylltiad a gweinyddu yr elusen ac i gydymffurfio a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol.

e) Asedau dirweddol sefydlog a dibrisiant

Mae asedau sefydlog yn cael eu cyfalafu a'u cynnwys ar gost gan gynnwys unrhyw gostau atodol o gaffaelio. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost neu brisiad llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrif o'u hoes fel a ganlyn:

Offer Cerddorol	25%
Offer	25%

2. Trosiant

Mae'r trosiant i gyd yn deillio o weithgareddau cyffredinol yr elusen. Digwydd y cyfan o'r trosiant o fewn y Deyrnas Unedig.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Nodiadau ar y datganiadau ariannol am y flwyddyn i'r 31 Awst 2025 (Ymlaen)

3. Gweithgareddau elusennol	Anghyf. £	Cyfyng. £	2025 £	2024 £
Ysgol Glancegin	15,000	-	15,000	15,000
Ysgol Maesincla	15,000	-	15,000	17,417
	<u>£30,000</u>	<u>£-</u>	<u>£30,000</u>	<u>£32,417</u>
	<u>£30,000</u>	<u>£-</u>	<u>£30,000</u>	<u>£32,417</u>
4. Incwm Gwirfoddol	Anghyf. £	Cyfyng. £	2025 £	2024 £
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	23,477	23,477	600
Cyngor Gwynedd	27,548	-	27,548	27,920
Cynllun Cerdd – Cyngor Gwynedd	-	27,000	27,000	-
Cyngor Gwynedd – Addysg	-	12,090	12,090	-
Cyngor Gwynedd – SPF	-	4,980	4,980	-
Atsain	-	1,985	1,985	7,938
CG Loteri Genedlaethol Pawb a'i Le	-	12,643	12,643	62,485
Grant Taith	589	-	589	15,320
Garfield Weston	-	10,000	10,000	10,000
Cronfa Addysg Thomas Howell	-	-	-	10,000
Sefydliad Moondance	-	-	-	16,004
Cronfa Ffyniant (SPF)	-	3,467	3,467	19,172
Sefydliad Harold Hyam Wingate	-	-	-	3,000
Grant CGGC/WCVA	-	8,218	8,218	6,790
Sefydliad Waterloo	-	15,000	15,000	-
Grant ILEP	-	17,467	17,467	-
Elusen G&M Davies	5,000	-	5,000	-
Cymuned Còd post	-	20,000	20,000	-
Annog mentergarwch	-	9,085	9,085	-
Eraill	2,410	-	2,410	4,915
	<u>£35,547</u>	<u>£165,412</u>	<u>£200,959</u>	<u>£184,144</u>
	<u>£35,547</u>	<u>£165,412</u>	<u>£200,959</u>	<u>£184,144</u>
5. Cost gweithgareddau elusennol	Anghyf. £	Cyfyng. £	2025 £	2024 £
Tiwtor arweiniol	1,989	27,017	29,006	37,532
Tiwtoriaid bras a tharo	2,481	52,792	55,273	57,505
Costau teithio	2,185	4,410	6,595	5,622
Offerynnau	-	-	-	262
Taith Sweden	472	-	472	17,611
	<u>7,127</u>	<u>84,219</u>	<u>91,346</u>	<u>118,532</u>
	<u>7,127</u>	<u>84,219</u>	<u>91,346</u>	<u>118,532</u>
Costau cynorthwyol (Nodyn 6)	33,383	66,622	100,005	109,265
Cost Llywodraethu (Nodyn 7)	2,566	-	2,566	2,287
	<u>£43,076</u>	<u>£150,841</u>	<u>£193,917</u>	<u>£230,084</u>
	<u>£43,076</u>	<u>£150,841</u>	<u>£193,917</u>	<u>£230,084</u>

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Nodiadau ar y datganiadau ariannol am y flwyddyn i'r 31 Awst 2025 (Ymlaen)

6. Costau cynorthwyol	Anghyf. £	Cyfyng. £	2025 £	2024 £
Cydlynnydd	4,144	30,380	34,524	28,828
Cynorthwydd prosiect	505	29,462	29,967	32,232
Cymorth allanol	17,855	650	18,505	18,387
Hyfforddiant tiwtoriaid	334	400	734	3,516
Costau rhedeg swyddfa	866	900	1,766	855
Cost gweinyddol (ffon a llungopiwr)	509	2,080	2,589	1,737
Marchnata a cost safle we	455	500	955	1,372
Rent	2,610	1,550	4,160	2,040
Manion	286	100	386	476
Cyrsiau a chyngherddau	3,680	-	3,680	15,057
Dathlu 10 mlynedd	804	-	804	3,434
Yswiriant	1,335	600	1,935	1,331
	<u>£33,383</u>	<u>£66,622</u>	<u>£100,005</u>	<u>£109,265</u>
7. Llywodraethu	Anghyf. £	Cyfyng. £	2025 £	2024 £
Cost cyfrifo	<u>£2,566</u>	<u>£-</u>	<u>£2,566</u>	<u>£2,287</u>
8. Cost staff ac ymddiriedolwyr			2025 £	2024 £
Cyflogau			133,787	142,125
Yswiriant Cenedlaethol			11,785	10,681
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr			3,983	3,291
			<u>£149,555</u>	<u>£156,097</u>

Yn ystod y flwyddyn y nifer aelod staff llawn amser cyfartalog oedd 5 (2024 – 5.5). Mae'r ymddiriedolaeth o'r farn bod personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r cydlynnydd. Cyfanswm cost cyflogaeth (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr) y personél rheoli allweddol am y flwyddyn oedd £34,524 (2024 – £28,828). Nid oes unrhyw aelod o'r gyflogres yn ennill mwy na £60,000 y flwyddyn.

Ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth gan unrhyw Ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn. Ni ad-dalwyd arian i'r Ymddiriedolwyr am gostau.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Awst 2025 (Ymlaen)*

9. Dyledwyr

	2025 £	2024 £
Dyledwyr eraill	6,250	12,500
Blaendaliadau	228	-
	£6,478	£12,500
	£6,478	£12,500

10. Credydwyr: *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn*

	2025 £	2024 £
Croniadau	6,630	3,564
Incwm gohiriedig	8,750	-
	£15,380	£3,564
	£15,380	£3,564

11. Treth Gorfforaeth

Mae gan Sistema Cymru - Codi'r To statws elusennol felly nid yw yn drethadwy i Dreth Corfforaethol.

12. Trafodion gyda Cyrff Cyhoeddus phartïon eraill â diddordeb

	2025 £	2024 £
Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd incwm gan y canlynol:		
Cyngor Celfyddydau Cymru	23,477	600
Cyngor Gwynedd	71,618	27,920
Atsain	1,985	7,938
CG Loteri Genedlaethol Pawb a'i Le	12,643	62,485
Garfield Weston	10,000	10,000
Cronfa Addysg Thomas Howell	-	10,000
Sefydliad Moondance	-	16,004
Cronfa Ffyniant (SPF)	3,467	19,172
Grant CGGC/WCVA	8,218	6,790
Sefydliad Harold Hyam Wingate	-	3,000
Sefydliad Waterloo	15,000	-
Llywodraeth Cymru - ILEP	17,467	-
Elusen G&M Davies	5,000	-
Cymuned Còd post	20,000	-

13. Parti Rheoli

Rheolir y sefydliad gan yr Ymddiriedolwyr.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Nodiadau ar y datganiadau ariannol am y flwyddyn i'r 31 Awst 2025 (Ymlaen)

14. Datganiad Cronfeydd

	Ymlaen	Incwm	Gwariant	31 Awst
	£	£	£	2025
				£
Cronfeydd Anghyfyngedig				
Cronfa gyffredinol	23,178	75,875	(43,076)	55,977
Cronfeydd Cyfyngedig				
CG Loteri Genedlaethol Pawb a'i Le	8,267	12,643	(20,910)	-
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	23,477	(23,477)	-
Atsain	-	1,985	(1,985)	-
Cronfa Ffyniant (SPF)	2,872	8,447	(11,319)	-
Grant CGGC/WCVA	790	8,218	(9,008)	-
Cynllun Cerdd – Cyngor Gwynedd	-	27,000	(15,500)	11,500
Cyngor Gwynedd – Addysg	-	12,090	(12,090)	-
Grant ILEP	-	17,467	(2,467)	15,000
Sefydliad Waterloo	-	15,000	(15,000)	-
Garfield Weston	-	10,000	(10,000)	-
Cymuned Côd post	-	20,000	(20,000)	-
Annog mentergarwch	-	9,085	(9,085)	-
	<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>
	11,929	165,412	(150,841)	26,500
Cyfanswm	£35,107	£241,287	£193,917	£82,477
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

	Asedau	Credydwy	Cyfanswm
	Cyfredol	Cyfredol	£
	£	£	
Cronfeydd Anghyfyngedig:			
Cronfa Gyffredinol ar 31 Awst 2025	£65,107	(£9,130)	£55,977
	<hr/>	<hr/>	<hr/>
Cronfeydd Cyfyngedig:			
Cynllun Cerdd – Cyngor Gwynedd	11,500	-	11,500
Grant ILEP	15,000	-	15,000
	<hr/>	<hr/>	<hr/>
Cronfeydd Cyfyngedig ar 31 Awst 2025	£26,500	£-	£26,500
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

Defnyddir y gronfa anghyfyngedig i hyrwyddo gweithgareddau'r elusen

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Nodiadau ar y datganiadau ariannol am y flwyddyn i'r 31 Awst 2025 (Ymlaen)

14. Datganiad Cronfeydd – blwyddyn flaenorol

	Ymlaen	Incwm	Gwariant	31 Awst 2024
	£	£	£	£
Cronfeydd Anghyfyngedig				
Cronfa gyffredinol	32,237	130,538	(139,597)	23,178
Cronfeydd Cyfyngedig				
CG Loteri Genedlaethol Pawb a'i Le	5,431	62,485	(59,649)	8,267
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	600	(600)	-
Atsain	-	7,938	(7,938)	-
Cronfa Ffyniant (SPF)	-	19,172	(16,300)	2,872
Grant CGGC/WCVA	-	6,790	(6,000)	790
	5,431	96,985	(90,487)	11,929
Cyfanswm	£37,668	£227,523	£230,084	£35,107

Cronfeydd Cyfyngedig:

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – Pawb a'i Le

Grant Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (Pawb a'i Le / People and Places)

Grant dwy flynedd i barhau i gefnogi prosiect 'Cymunedau Cerdd' i gynnal gweithdai cerdd yn y ddwy gymuned o amgylch Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon ac Ysgol Glancegin ym Mangor ar gyfer plant a'u teuluoedd a phobl o bob oed.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Grant tuag at hyfforddiant staff a thiworiaid

Cronfa Ffyniant (SPF)

Mae grant SPF yn caniatáu i Sistema Cymru, Codi'r To ddyranu'r arian tuag at gostau cyffredinol rhedeg y cynllun.

Grant CGGC/WCVA

Mae'r prosiect wedi ei gynllunio gyda'r nod o recriwtio, hyfforddi a chefnogi 12 Gwirfoddolwr a 6 Hyrwyddwr Cymunedol i gefnogi ein rhaglen addysg gerddorol bresennol yn nwy o gymunedau mwyaf difreintiedig Gwynedd – Maesgeirchen a Pheblig/Cadnant.

Atsain

Grant tuag at datblygu Llais yr Ifanc – sef safbwynt y bobl ifanc sy'n rhan o weithgareddau Codi'r To.

Cyngor Celfyddydau

Grant i gefnogi gweithdai cymunedol, gan gynnwys costau cydlynu a thiwora.

Cynllun Cerdd

Grant i ddarparu gweithdai cerddoriaeth mewn ysgolion Gwynedd.

Cyngor Gwynedd – Addysg

Grant i gynnal darpariaeth Codi'r To mewn ysgolion.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Nodiadau ar y datganiadau ariannol am y flwyddyn i'r 31 Awst 2025 (Ymlaen)

14. Datganiad Cronfeydd ymlaen

Garfield Weston

Grant i ehangu gweithdai a gweithgareddau cymunedol.

Sefydliad Waterloo

Grant i gefnogi rhaglenni Codi'r To mewn ysgolion.

Taith ILEP

Grant tuag at daith addysgol dramor ar gyfer ymchwil a pherfformio.

Cymuned Cod Post

Grant i ddarparu gweithdai a mentrau cymunedol lleol.

Annog Mentergarwch

Grant tuag at gostau tiwtora cerdd ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac addysgol.

15. Ffigyrau cymharol y flwyddyn flaenorol ar gyfer y datganiadau ariannol.

Datganiad o Weithredoedd Ariannol am y flwyddyn hyd at 31 Awst 2024

	Nodyn	Cronfeydd Anghyf. £	Cronfeydd Cyfyng. £	31 Awst 2024 £	31 Awst 2023 £
Incwm					
Gweithgareddau elusennol	3	32,417	-	32,417	28,934
Incwm gwirfoddol	4	87,159	96,985	184,144	147,770
Incwm arall:					
Codi arian a rhoddion		5,821	-	5,821	13,135
Lwfans Cyflogaeth		5,141	-	5,141	5,685
Cyfanswm		130,538	96,985	227,523	195,524
Gwariant ar:					
Gweithgareddau elusennol	5	139,597	90,487	230,084	193,228
(Gwariant) / Incwm net am y flwyddyn		(9,059)	6,498	(2,561)	2,296
Balans ar 1af Medi 2023		32,237	5,431	37,668	35,372
Balans ar 31 Awst 2024		£23,178	£11,929	£35,107	£37,668

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio o weithgareddau sy'n parhau. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

England & Wales - Charity number 1159046

Accounts

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO
(A Charitable Incorporated Organisation)

Unaudited Report and Financial Statements
Year Ended 31st August 2024

Charity Number: 1159046

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Contents	Page
Legal and administrative information	2
Report of the trustees	3 - 6
Independent examiners' report	7
Statement of financial activities	8
Balance sheet	9
Notes forming part of the financial statements	10 - 17

**SISTEMA CYMRU - CODI'R TO
LEGAL AND ADMINISTRATIVE INFORMATION**

TRUSTEES

Carys Aaron
Alun Ffred Jones
Sioned Elisabeth Huws
Nia Wyn Lloyd
Owen Owens
Gwawr Ifan
Judith Humphreys
Rhys Harris
Mari Emlyn – Res, 25/01/2024
Ann Pari Williams – Res. 11/10/2024
Ann Hopcyn

REGISTERED OFFICE

Canolfan Noddfa
Cil Peblig
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 2RS

BANKER

HSBC Bank PLC
24 Castle Square
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2NB

ACCOUNTANTS

W J Matthews a'i Fab
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Report of the trustees for the year ended 31 August 2024

The trustees submit their annual report and the unaudited financial statements for the year ended 31 August 2024. The trustees have adopted the provisions of the Statement of Recommended Practice (SORP) "Accounting and Reporting by Charities" issued in March 2005 in preparing the annual report and financial statements of the charity.

The charity became a registered Charitable Incorporated Organisation on 3 November 2014, Charity Number: 1159046.

Sistema Cymru - Codi'r To is a community regeneration project that brings the world-renowned El Sistema teaching method to North Wales. We work in two schools, Ysgol Maesincla in Caernarfon, and Ysgol Glancegin in Bangor. Professional music tutors work in the schools leading activities and lessons, giving each child from Nursery up to Year 6 in Ysgol Glancegin and Ysgol Maesincla the opportunity to receive music lessons and learn to play brass and percussion instruments. We also make connections with the families and the neighbourhood surrounding the schools by bringing live music to the community and hold after school music clubs for pupils from Year 3 to secondary school age.

The aim of Sistema Cymru - Codi'r To is to transform lives through music. It is a community development project that aims to improve the lives of individuals and families, by working in primary schools to give new experiences through musical tutoring. The project was developed by a Steering Group representing arts, community and education interests in Gwynedd who came together because they wanted to apply the distinctive El Sistema approach in a Welsh cultural context.

The inspiration of the El Sistema programme has its origins in Venezuela but also from programmes that use similar methods, such as the Big Noise in Scotland and In Harmony in England. The project is delivered primarily through the medium of the Welsh language and culture, one of only a handful of Sistema projects delivered through a minority language.

Sistema Cymru - Codi'r To has been evaluated by Bangor University to provide evidence of the extent to which the project achieves its aims and objectives, and to assess the impact both for the young people and the schools and the community response.

Investment Powers

Under the constitution document of the CIO, the charity has the power to make any investment, which the trustees see fit.

Method of appointment of trustees

At the Annual General Meeting held on 25th January 2024, Ann Hopcyn, Judith Humphreys, Ann Pari Williams and Rhys Harris were re-elected as trustees for a period of 2 years.

At any future Annual General Meeting additional Trustees may be elected for a period of 3 years. Any Trustee whose appointment period expires is eligible for re-election.

Objects of the Charity for the benefit of the public

The main objects of the charity are to promote quality of life and help young people by:

- Providing arts and leisure-time activities for their social well-being, planned to improve their living conditions.
- Providing support and activities which develop their skills to enable them to participate in society as mature and responsible individuals.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Report of the trustees for the year ended 31 August 2024, continued.....

The charity also aims to promote social inclusion for the public benefit by preventing people from becoming socially excluded, mitigating and meeting the needs of those who are socially excluded and help them to integrate into society. For the purpose of the above clause 'Socially Excluded' means being excluded from society, or from part of society, as a result of being a member of a community which is socially and economically disadvantaged.

Relationship with interested parties

The charity is backed by Cyngor Gwynedd, Awards for All National Lottery Wales, Steve Morgan Foundation, The National Lottery Community Fund - People and Places, People's Postcode Lottery, Colwinston Charitable Trust, The Darkley Trust, The Douglas Pennant Family Trust, Millennium Stadium Charitable Trust, Atsain (Anthem), Comic Relief, Ysgol Maesincla, and Ysgol Glancegin. The Board of Trustees are grateful for the continuing support of all interested parties.

Policy regarding Funds

The charity is very dependent upon the continued support of interested parties. The charity's main objective is to establish at least a break-even position each year by generating sufficient funds from its ordinary activities to cover costs in order to increase the balance on general reserves. Our reserves policy states that the charity's running costs and redundancy costs of staff should be kept with at least 3 months in reserve.

Review of Financial Activities

Following successful applications for new projects during 2023 and also 2024, with the National Lottery's Pawb a'i le project continuing, the total income for the year increased from £195,524 in 2023 to £227,523 this year. Following this, total expenditure also increased, from £193,228 in 2023 to £230,084, resulting in a net expenditure for the year of £2,561 (2023 - net income of £2,296), with the balance of the funds at the end of the year decreasing to £35,107 (2023 - £37,668). The balance on the unrestricted fund was £23,178 (2023 - £32,237) which is available for the purpose of the charity.

Sistema Cymru Codi'r To works in two schools, Ysgol Maesincla in Caernarfon, and Ysgol Glancegin in Bangor. Professional music tutors work in the schools leading activities and lessons, giving each child from Nursery up to Year 6 in Ysgol Glancegin and Ysgol Maesincla the opportunity to receive weekly music lessons and learn to play brass and percussion instruments. We also make connections with the families and the neighbourhood surrounding the schools by bringing live music to the community and hold after school music clubs for pupils from Year 3 to secondary school age.

During 2023-2024, the following activities and events took place:

Schools

The project is conducted in two primary schools in Arfon: Ysgol Maesincla, Caernarfon, and Ysgol Glancegin, Maesgeirchen, Bangor.

Music Program

The main goal of our National Music Program is to provide Rhythm and Drumming sessions for all Year 5 pupils in Gwynedd. The program also includes Dalcroze Eurhythmics sessions for Foundation Phase pupils with Lucy in Bangor, promoting musical learning through movement and physical engagement. Additionally, the project offers training for Expressive Arts Teachers, equipping teachers with the necessary skills to incorporate music more effectively into their teaching practices.

Postcode Lottery - Carnival Drumming

This project delivers six weeks of carnival drumming workshops in three locations: Tywyn, Botwnnog (now relocated to Nefyn), and Pentir. The aim of the sessions is to bring the community together and introduce participants to the enjoyment of creating music based on Brazilian rhythms (led by Colin Daimond), with the hope that the community will take ownership of the project and continue the work initiated by Codi'r To.

SISTEMA CYMRU - CODI'R TO

Report of the trustees for the year ended 31 August 2024, continued.....

Atsain: A Decade of Codi'r To

This project was designed to provide Welsh-language musical activities specifically for young parents (aged 16-25) with children aged 0-4. The sessions were intended to be community-based, avoiding school settings and instead using venues such as Canolfan Noddfa and Eglwys y Groes.

WCVA/CGGC

This project aims to recruit, train, and support 12 volunteers and 6 Community Champions to assist our ongoing musical education program in two of Gwynedd's most disadvantaged communities—Maesgeirchen and Peblig/Cadnant.

National Lottery - Musical Communities 2

Until November 2024, our community projects—including Clwb Codi'r To, community events, home visits to our students, and school holiday clubs—have been successful in bringing local people together, strengthening ties between Codi'r To and our communities.

Community Events

Events such as Parent Showcases, Christmas Parties for Clubs, Pancake Tuesday Club, and a Health and Wellbeing project for parents with children under three (in collaboration with Gwynedd Council).

Celebrating a Decade of Codi'r To - 10th Anniversary Concerts

The Codi'r To 10th Anniversary Celebration Concerts were held at Galeri Caernarfon (May 23, 2024) and Pontio, Bangor (June 6, 2024), celebrating a decade of Codi'r To.

TAITH Sweden

